Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**TEITL: Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol – Llywodraethu Ysgolion**

**DYDDIAD: 19 Hydref 2009**

**GAN: Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

---

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ym maes Llywodraethu Ysgolion wedi cael ei gyflwyno heddiw.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol yn ymwneud â sawl agwedd ar addysg a hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae llawer o faterion ym Maes 5 o Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addysg a Hyfforddiant). Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn yn cynnig ffordd o lenwi'r bwlch ym Maes 5 trwy ychwanegu tri Mater newydd yn ymwneud â Llywodraethu Ysgolion.

Os caiff y Gorchymyn arfaethedig ei gymeradwyo, byddai'n ymestyn y maes cymhwysedd sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant er mwyn cynnwys y canlynol:-

- Ymddygiad a llywodraethu ysgolion a gynhelir
- Diogelu cydweithredu rhwng pobl neu gyrff sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir
- Rhoi awdurdod i gyrff llywodraethu (neu bobl neu gyrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir) sefydlu corff, megis corff addysgol sy'n gallu darparu gwasanaethau i ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach neu a fyddai'n gallu arfer swyddogaethau ar ran awdurdodau addysg lleol.

Os cymeradwyir y cymhwysedd hwn, byddai’n cynorthwyo polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion sy’n gwella cyrhaeddiad a’r llwybrau dysgu 14 i 19 sy’n cael eu harwain gan sgiliau gan fod llywodraethu ysgolion yn sail ac yn berthnasol i sut mae ysgolion yn gweithredu a pha mor dda y maent yn perfformio. Bydd y cymhwysedd yn cysylltu â Materion eraill ar gyfer ysgolion a gynhelir.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi pwysleisio’r gwerth yr ydym yn ei roi ar lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Dysgu ‘Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion’. Rydym am sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd â’u swyddogaethau mewn dull cydweithredol gan sicrhau deilliannau o ansawdd uchel i ddisgyblion Cymru.

Rwy’n edrych ymlaen at weithio gyda’r Aelodau ac eraill sydd â diddordeb mewn materion yn ymwneud â llywodraethu ysgolion wrth graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig. Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2009.